Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 23.11.2021

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# ARIANNU: Cyhoeddi cefnogaeth ychwanegol i fusnesau

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd cymorth ariannol ychwanegol ar gael trwy awdurdodau lleol i helpu busnesau i adnewyddu a datblygu ar gyfer y dyfodol. Cyhoeddwyd cyllid pellach hefyd ar gyfer hyfforddiant, gydag ehangu pellach Cyfrifon Dysgu Personol. I ddarllen y cyhoeddiad ewch i:

https://llyw.cymru/pecyn-45-miliwn-i-hyfforddi-staff-helpu-busnesau-bach-chanolig-yng-nghymru-i-dyfu

Mae Cyngor Gwynedd eisoes yn gweithio i ddatblygu'r gronfa leol, gan anelu at lansiad cyn diwedd y flwyddyn. Cadwch lygad am fwy o fanylion.

# IECHYD a DIOGELWCH: Iechyd a diogelwch gweithwyr tymhorol

Mae canllawiau ar gael gan yr Awdurdod Iechyd a Diogelwch (HSE), i helpu defnyddwyr a chyflenwyr gweithwyr asiantaeth a gweithwyr dros dro i ddeall eu cyfrifoldebau iechyd a diogelwch, ewch i:

https://www.hse.gov.uk/vulnerable-workers/gig-agency-temporary-workers/index.htm

# CYMORTH: Gwell cefnogaeth Cyllid Allforio y DU (UKEF)

Mae'r UKEF wedi ymestyn ei 'Export Development Guarantee' i gefnogi busnesau nad ydyn nhw'n allforio ar hyn o bryd ac yn ailwampio ei 'Bills and Notes Guarantee' i sicrhau bod allforwyr y DU yn cael eu talu ar unwaith am eu nwyddau a'u gwasanaethau. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn:

https://www.gov.uk/government/news/ukef-overhauls-guarantees-to-kickstart-major-exports

# AROLWG: Arolwg sector gofod y DU – Maint ac Iechyd 2021

Mae'r arolwg blynyddol 'Maint ac Iechyd diwydiant gofod y DU' – y brif ffynhonnell dystiolaeth a ddefnyddir i olrhain twf yn y sector – bellach ar agor, ewch i:

https://www.gov.uk/government/news/uk-space-sector-survey-size-and-health-2021

# CYFLE: Innovate UK EDGE Pitchfest Cymru – Ceisiadau ar agor

Mae Innovate UK EDGE Pitchfest yn cefnogi busnesau bach a chanolig arloesol ac uchelgeisiol yn y DU i fod yn barod am fuddsoddiad ac i ddatblygu eu neges ar gyfer buddsoddwyr er mwyn helpu i godi cyllid. Mae nifer cyfyngedig o lefydd ar gael ac mae ceisiadau yn cau am 5:00pm, 1 Rhagfyr 2021. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3l58kyP

# BREXIT: Gofynnwch gwestiwn i'r tîm cymorth allforio

Os ydych yn fusnes yn y DU yn gwerthu nwyddau neu wasanaethau i Ewrop, gallwch gysylltu â thîm cymorth allforio llywodraeth y DU dros y ffôn neu ar-lein. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.gov.uk/ask-export-support-team

# TRETH: Cyllid a Thollau EM yn rhybuddio cwsmeriaid am dwyllwyr Hunanasesu

Mae Cyllid a Thollau EM (HMRC) yn atgoffa cwsmeriaid i fod yn wyliadwrus o dwyllwyr yn defnyddio Hunanasesiad i geisio dwyn arian neu wybodaeth bersonol. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.gov.uk/government/news/hmrc-warns-customers-about-self-assessment-tricksters

# AMGYLCHEDD: Arloesedd SMART

Os oes gennych syniad i leihau carbon o'ch cynhyrchion, prosesau neu dechnolegau ond yn ansicr ynghylch ble i ddechrau, gallai Arloesedd SMART helpu. Darganfyddwch sut gall tîm Arloesedd SMART eich helpu chi, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/innovation/cy/arloesedd-smart

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru